Y PWYLLGOR ARCHWILIO
10 GORFFENNAF 2019

Cofnodion cyfarfod Pwyllgor Archwilio Cyngor Sir y Fflint a gynhaliwyd yn Ystafell Bwyllgora Clwyd, Neuadd y Sir, yr Wyddgrug, ddydd Mercher 10 Gorffennaf 2019.

YN BRESENNOL: Y Cynghorydd Chris Dolphin (Cadeirydd)
Y Cynghorwyr: Geoff Collett, Andy Dunbobbin, Patrick Heesom, Paul Johnson ac Arnold Woolley.
Aelod cyfetholedig: Sally Ellis.

DIRPRWY: Y Cynghorydd: Clive Carver (ar ran Andrew Holgate).

HEFYD YN BRESENNOL:
Y Prif Weithredwr, Prif Swyddog (Llywodraethu), Rheolwr Archwilio Mewnol, Rheolwr Cyllid Corfforaethol, Rheolwr Cyllid Dros Dro - Cyfrifyddiaeth Dechnegol, a Swyddog Gwasanaethau Democrataidd.

Mike Whiteley o Swyddfa Archwilio Cymru.

Dirprwy Bennaeth a Chyfrifydd Cronfa Bensiynau Clwyd (ar gyfer eitem 18).

13. DIRPRWYO

Yn unol â gofynion y Cyfansoddiad, penderfynodd y Pwyllgor ganiatáu i'r Cynghorydd Carver (a oedd wedi cael yr hyfforddiant angenrheidiol) ddirprwyo ar ran y Cynghorydd Holgate.

PENDERFYNWYD:

Caniatáu i'r Cynghorydd Clive Carver ddirprwyo yn y cyfarfod.

14. DATGAN CYSYLLTIAD

O ran eitem 8 ar y Rhaglen ynglŷn â Rheoli Risg, datganodd y Cynghorydd Woolley gysylltiad personol ac yntau'n Gadeirydd Gwasanaeth Cyngor ar Bopeth Sir y Fflint, gan y cyfeiriwyd at risgiau ynghylch Diwygio'r Gyfundrefn Les a'r Credyd Cynhwysol.

15. COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 5 Mehefin 2019.

Cofnod 9: Adroddiad Cynnydd Archwilio Mewnol – er ei fod yn fodlon ar y cofnodion, dywedodd y Cynghorydd Heesom y byddai'n siarad â swyddogion wedi'r cyfarfod i drafod ei bryderon ynglŷn â'r materion dan sylw.

PENDERFYNWYD:

Cymeradwyo'r cofnodion fel rhai cywir a bod y Cadeirydd yn eu llofnodi.

16. DATGANIAD CYFRIFON DRAFFT 2018/19

Cyflwynodd y Rheolwr Cyllid Corfforaethol Ddatganiad Cyfrifon drafft 2018/19 (yn amodol ar eu harchwilio), a hynny dim ond er gwybodaeth am y tro. Roedd y datganiad yn cynnwys y cyfrifon Grŵp, gan gynnwys is-gwmnïau ym mherchnogaeth lwyr y Cyngor, a'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol a drafodwyd yn y cyfarfod blaenorol. Derbynnid y cyfrifon terfynol wedi'u harchwilio ar 11 Medi i'w cymeradwyo a'u hargymell i'r Cyngor Sir ar yr un diwrnod, er mwyn eu cyhoeddi erbyn 15 Medi, a oedd cyn y dyddiad cau statudol ar gyfer cyhoeddi, sy'n gynharach eleni.

Rhoes y Rheolwr Cyllid Corfforaethol a'r Rheolwr Cyllid - Cyfrifyddiaeth Dechnegol gyflwyniad ar y cyd ynglŷn â'r materion canlynol:

- Pwrpas y Cyfrifon a'r Cefndir
- Cynnwys a Throsolwg
- Cyfrifoldeb am y Cyfrifon
- Grŵp Llywodraethu Cyfrifon
- Cysylltiadau â Monitro'r Gyllideb
- Penawdau – Cronfa'r Cyngor, Cronfeydd Refeniw Wrth Gefn, Cyfalaf a'r Cyfrif Refeniw Tai
- Newidiadau yng Nghyfrifon 2018/19
- Cyfrifon Grŵp
- Amserlen a Chamau Nesaf
- Effaith y Terfynau Amser Cynharach
- Cyfrifon Cronfa Bensiynau Clwyd.

Roedd Mr. Mike Whiteley o Swyddfa Archwilio Cymru'n falch o weld bod swyddogion yn dal i gydweithredu wrth baratoi ar gyfer yr archwiliad, a dywedodd nad oedd unrhyw broblemau o bwys wedi dod i'r amlwg hyd hynny. Cynhelid archwiliad 'ysgafn' o'r tri is-gwmni gan nad oedd Swyddfa Archwilio Cymru o'r farn eu bod yn 'arwyddocaol' yn ôl y rheoliadau archwilio. Pe byddai meysydd penodol yn peri pryder wrth i'r archwiliad fynd yn ei flaen, gwneid gwaith ychwanegol ar hynny.

O ran nodyn 28 (partïon cysylltiedig), mynegodd Sally Ellis bryderon ynglŷn â dyled gynyddol y Bwrdd Iechyd Lleol i'r Cyngor. Gan gydnabod y cysylltiadau rhwng y ddau gorff cyhoeddus dan sylw, awgrymodd y gellid cyfeirio'r mater at Bwyllgor Trosolwg a Chraffu. Wrth roi cefndir ar y mater, rhoes y Prif Weithredwr sicrwydd fod y mater wedi'i godi gyda'r Bwrdd Iechyd a'i drafod ar lefel uchel. Er y bu gostyngiad yn y swm a oedd yn ddyledus, awgrymodd y gallai'r Pwyllgor ofyn iddo ysgrifennu llythyr ffurfiol i godi'r mater, o safbwynt llif arian a risg. Siaradodd Sally Ellis o blaid hynny.

Gofynnodd y Cadeirydd am sicrwydd fod y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn ymwybodol o'r mater. Dywedodd y Prif Weithredwr fod y Pwyllgor yn ymwybodol o'r ffactorau oedd wedi cyfrannu at hyn, ond y byddai hefyd yn cyfleu'r pryderon iddo er mwyn sicrhau fod gwaith monitro'n parhau.

Dywedodd y Prif Swyddog mai'r swm yn y cyfrifon oedd yr hyn a oedd yn ddyledus pan y'u paratowyd, ac mai dyled y Bwrdd Iechyd mewn gwirionedd oedd £680,000. Dywedodd y câi'r mater ei amlygu drwy grŵp cyswllt y Pwyllgor Archwilio â Chadeiryddion Trosolwg a Chraffu.

O ran y cyfrifon Grŵp, awgrymodd Sally Ellis y byddai'n fuddiol i gynnwys crynodeb o unrhyw risgiau penodol yng nghyfrifon y tri is-gwmni, ac yn enwedig felly unrhyw faterion a allai effeithio ar y cyfrifon craidd.

Rhoes y Prif Weithredwr sicrwydd ynglŷn â Chynyrchiadau Theatr Clwyd Cyf, a sefydlwyd fel cwmni masnachu er mwyn cael gostyngiadau treth, a bod Arlwyo a Glanhau Newydd Cyf yn darparu gwasanaeth parhaus ac yn gweithio'n dda.

Esboniodd y Prif Swyddog fod strwythur cyfreithiol North East Wales (NEW) Homes, a oedd o dan berchnogaeth lwyr y Cyngor, yn golygu fod yr asedau wedi'u diogelu a bod y Cabinet yn cymeradwyo'r cynllun busnes bob blwyddyn.

Soniodd y Rheolwr Cyllid am faint y cwmnïau o gymharu â'r Cyngor. Awgrymodd y gellid cynnwys nodyn estynedig ynglŷn â gweithgareddau lefel uchel a chrynodeb o'r risgiau ar gyfer pob cwmni, fel rhan o gydgyfnerthu'r cyfrifon o 2019/20 ymlaen.

Rhoes y Prif Swyddog gadarnhad i'r Cynghorydd Johnson o'r swm a oedd yn ddyledus gan Gynghorau Tref a Chymuned. Cytunodd y Rheolwr Cyllid i rannu cyfanswm y ddyled gan Gomisiynydd Heddlu a Throseddu Gogledd Cymru ac Awdurdod Tân Gogledd Cymru yn y ddogfen. O ran y Cynllun Cyfnewid Ieuenctid, esboniodd ei bod yn ofynnol i gynghorau roi cyfrif am unrhyw gyllid wedi'i gadw y tu allan i'w cyfrifon eu hunain.

Cynigiodd y Cynghorydd Johnson gefnogi'r argymhellion yn yr adroddiad ac fe'i heiliwyd gan Sally Ellis.

PENDERFYNWYD:

(a) Nodi Datganiad Cyfrifon drafft 2018/19 (gan gynnwys y Datganiad Llywodraethu Blynyddol a gymeradwywyd gan y Pwyllgor yn ei gyfarfod fis Mehefin 2019); a

(b) Bod y Pwyllgor yn nodi y gellid trafod unrhyw agwedd ar y Datganiad Cyfrifon gyda swyddogion neu Swyddfa Archwilio Cymru gydol mis Gorffennaf, Awst a Medi, cyn i'r fersiwn terfynol wedi'i archwilio ddod yn ôl gerbron y Pwyllgor i'w argymell i'r Cyngor er mwyn i'r Cyngor ei gymeradwyo'n derfynol ar 11 Medi 2019.

17. GWYBODAETH ARIANNOL ATODOL I DDATGANIAD CYFRIFON DRAFFT 2018/19

Cyflwynodd y Rheolwr Cyllid Corfforaethol yr wybodaeth ariannol atodol i Ddatganiad Cyfrifon drafft 2018/19, yn unol â'r cais a wnaethpwyd yn y Rhybudd o Gynnig a gymeradwywyd gan y Cyngor yn 2013.

Roedd y wybodaeth ynglŷn â swyddi a oedd yn benodiadau dros dro'n dangos y symiau a dalwyd i sefydliadau am drefniadau o'r fath ac nid oedd o reidrwydd yn adlewyrchu cyflogau'r rhai dan sylw. Roedd y costau am ymgynghorwyr a swyddi nad oeddent yn rhai parhaol ar draws y Cyngor yn cynnwys costau blynyddol damcaniaethol pe cyflogid y bobl dan sylw am y flwyddyn gyfan, yn ogystal â'r costau gwirioneddol a ysgwyddid.

Cynigodd y Cynghorydd Woolley gymeradwyo'r argymhellion, ac fe'i heiliwyd gan y Cynghorydd Dunbobbin.

PENDERFYNWYD:

Nodi'r adroddiad.

18. DATGANIAD CYFRIFON DRAFFT CRONFA BENSIYNAU CLWYD 2018/19

Cyflwynodd y Rheolwr Cyllid Corfforaethol yr adroddiad ynghylch Datganiad Cyfrifon drafft Cronfa Bensiynau Clwyd 2018/19, a gyflwynid bellach ar wahân i Ddatganiad Cyfrifon y Cyngor yn sgil newid yn y rheoliadau. Gan fod yr awdurdod i gymeradwyo cyfrifon y Gronfa Bensiynau wedi'i ddirprwyo i Bwyllgor Cronfa Bensiynau Clwyd, derbyniwyd yr adroddiad hwn er gwybodaeth yn unig.

Yn ei gyfarfod ar 12 Mehefin roedd Pwyllgor y Gronfa wedi derbyn cyflwyniad manwl ynglŷn â'r cyfrifon, ac ni chododd unrhyw faterion o bwys. Cyflwynwyd y Datganiad Llywodraethu Blynyddol drafft hefyd, a gâi ei gyflwyno gyda'r cyfrifon archwiliedig er cymeradwyaeth fis Medi.

Gan gydnabod y trefniadau llywodraethu, dywedodd Sally Ellis y byddai'n fuddiol pe byddai adroddiadau yn y dyfodol yn cynnwys crynodeb o unrhyw bwyntiau'r oedd Pwyllgor Cronfa Bensiynau Clwyd wedi'u codi. Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â chynnydd mewn costau 'gorolwg a llywodraethu', dywedodd y Cyfrifydd fod y rhain yn deillio o waith Actiwaraidd ar ddechrau'r drefn brisio deirblynyddol, a gwaith prosiect ychwanegol ar y llwybr hedfan.

Ceisiodd Sally Ellis sicrwydd fod y camau i liniaru ar y risgiau coch yn llwyddo. Dywedodd Dirprwy Bennaeth y Gronfa Bensiynau mai'r rhain oedd y risgiau mwyaf a nodwyd wrth lunio cofrestr risg gynhwysfawr i fynd gerbron Pwyllgor y Gronfa bob tri mis.

Dywedodd y Prif Weithredwr y byddai rhai risgiau'n aros yn goch oherwydd ansicrwydd yn y farchnad, a'r effaith yn sgil cyflwyno rheoliadau newydd. Soniodd am waith Pwyllgor Cronfa Bensiynau Clwyd i gyflwyno hyblygrwydd yn y strategaeth fuddsoddi ar sail cyngor proffesiynol mewnol ac allanol.

O ran amrywioldeb rheolwyr cronfeydd, cadarnhaodd y Dirprwy Bennaeth na fedrai'r un rheolwr unigol reoli mwy na 30% o asedau'r Gronfa. Y gyfran fwyaf oedd ym meddiant unrhyw reolwr cronfa unigol oedd 22.8%, a hynny ar gyfer rheoli'r mandad Buddsoddiadau a Ysgogir gan Rwymedigaethau, a oedd â'r nod o gadw'n gyson â phroffil aelodau'r Gronfa a'u rhwymedigaethau wrth i'r Gronfa

chwyddo. Roedd penderfyniadau strategol fel hyn yn destun adolygiad rheolaidd gan y Pwyllgor.

Gan gydnabod swyddogaeth Pwyllgor Cronfa Bensiynau Clwyd, holodd Sally sut allai'r Pwyllgor Archwilio gyfrannu at y broses. Cyfeiriodd y Cadeirydd at y sicrwydd a roes y Dirprwy Bennaeth a'r Cyfrifydd.

Mewn ymateb, soniodd y Prif Weithredwr am y trefniadau llywodraethu trylwyr ar gyfer y Gronfa, ac awgrymodd y dylid cyfeirio'r materion a godwyd i Bwyllgor y Gronfa er mwyn cael esboniad.

Tynnodd y Cynghorydd Woolley sylw'r aelodau at wall teipio yn yr adroddiad.

Cynigodd y Cynghorydd Johnson gymeradwyo'r argymhellion, ac fe'i heiliwyd gan y Cynghorydd Dunbobbin.

PENDERFYNWYD:

Nodi'r adroddiad.

19. ADRODDIAD BLYNYDDOL RHEOLI'R TRYSORLYS 2017/18 A'R WYBODAETH DDIWEDDARAF AR REOLI'R TRYSORLYS YN CHWARTER 1 2018/19

Cyflwynodd y Rheolwr Cyllid - Cyfrifeg Dechnegol yr Adroddiad Blynyddol drafft ar Reoli'r Trysorlys yn 2018/19 i'w adolygu a'i argymell i'r Cabinet. Darparwyd hefyd, er gwybodaeth, y wybodaeth ddiweddaraf yn Chwarter 1 ynglŷn â materion a oedd a wnelont â Pholisi Rheoli'r Trysorlys, Strategaethau ac Arferion, ynghyd â'r cylch adrodd.

Wrth baratoi ar gyfer cymeradwyo Strategaeth Rheoli'r Trysorlys ar gyfer 2020/21, gwahoddid pob Aelod i'r sesiwn hyfforddiant blynyddol y byddai'r Ymgynghorwyr Rheoli Trysorlys yn ei gynnal fis Rhagfyr. Dosberthid manylion y sesiwn hyfforddiant ar ôl eu cadarnhau.

Wrth fwrw golwg dros weithgarwch Rheoli'r Trysorlys yn nhri mis cyntaf 2019/20, nodwyd fod y Cyngor wedi codi benthyciadau ychwanegol tua diwedd mis Mawrth 2019/20, yn unol â'r strategaeth fenthyca.

Mewn ymateb i gwestiwn gan y Cynghorydd Carver, rhoes y Rheolwr Cyllid fraslun o'r strategaeth fenthyca gan esbonio sut codwyd benthyciadau unigol gan ystyried proffil aeddfedu'r dyledion ar y pryd. Câi'r angen ei fenthyca ei gydbwyso â'r gofynion ariannu cyfalaf, a oedd yn dueddol o gynyddu yn sgil gwariant cyfalaf wedi'i ariannu drwy fenthyca, ac yn lleihau yn sgil Darparu Isafswm Refeniw. Roedd y rheoliadau Darparu Isafswm Refeniw'n gofyn i gynghorau neilltuo cyllid refeniw ar gyfer ad-dalu dyledion a oedd yn effeithio ar y sefyllfa gyffredinol o ran benthyciadau drwy leihau'r cyllid cyfalaf gofynnol. Cytunodd y Rheolwr Cyllid i gynnwys mwy o fanylion am hyn yn y sesiwn hyfforddiant oedd i ddod.

O ran y portffolio buddsoddiadau, holodd y Cynghorydd Johnson ynglŷn â buddsoddiadau'r Cyngor gydag awdurdodau eraill, ac fe'i hysbyswyd fod y dull gweithredu presennol yn cynnwys defnyddio mwy o gyllid o Farchnadoedd Arian, lle'r oedd modd cael mynediad at gyllid yn syth er mwyn rheoli risgiau hylifedd.

Cynigodd y Cynghorydd Dunbobbin gefnogi'r argymhellion, ac fe'i heiliwyd gan y Cynghorydd Woolley.

PENDERFYNWYD:

(a) Nodi Adroddiad Blynyddol drafft 2018/19 ar Reoli'r Trysorlys, heb ddod ag unrhyw faterion at sylw'r Cabinet ar 24 Medi 2019; a

(b) Nodi'r wybodaeth ddiweddaraf ynglŷn â Rheoli'r Trysorlys yn Chwarter 1 2019/20.

20. Y WYBODAETH DDIWEDDARAF YNGHYLCH RHEOLI RISG

Cyflwynodd y Prif Weithredwr y datganiad o'r sefyllfa ddiwedd y flwyddyn o ran y risgiau strategol a nodwyd yng Nghynllun y Cyngor 2018/19. Roedd y pump o brif risgiau strategol (coch) ar ddiwedd y flwyddyn yn ymwneud yn bennaf â ffactorau allanol, fel y nodwyd yn yr adroddiad.

Ychwanegid derbyn adroddiad manwl ar systemau rheoli risg at y Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol, er mwyn rhoi sicrwydd i'r Pwyllgor, gan gynnwys risgiau newydd a swyddogaeth y gwasanaeth Archwilio Mewnol.

Dywedodd y Cynghorydd Heesom na liniarwyd ar y risg o leihad yn y cyflenwad o dir, a'i fod yn pryderu am hyfywedd y cynllun lliniaru ar lifogydd gan ystyried tai'n effeithio ar Borth y Gogledd. Mynegodd bryderon hefyd ynglŷn â risgiau ar y thema Cyngor Uchelgeisiol, yn enwedig felly o ran seilwaith y coridor trafnidiaeth, a oedd yn hanfodol ar gyfer datblygu'r economi yn y dyfodol.

Dywedodd y Prif Weithredwr y gallai'r Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu herio proffiliau risg pe dymunent. O ran darparu tai fforddiadwy, diffiniwyd y risgiau ar sail mynediad at dai, er enghraifft, yr effaith ar ddigartrefedd a'r pwysau ar y tîm Dewisiadau Tai, yn hytrach na datblygiadau adeiladu. Byddai darparu tai fforddiadwy drwy'r Cynllun Datblygu Lleol yn un o'r materion dan sylw yng nghyfarfod nesaf y Cyngor Sir.

Gofynnodd y Cynghorydd Woolley am y wybodaeth ddiweddaraf ynglŷn â'r terfyn benthyca ar gyfer adeiladu tai cyngor. Fe'i hysbyswyd fod Llywodraeth Cymru wedi cytuno i ymestyn hwn, ac unwaith y ceid ymateb fe'i rhennid â'r Pwyllgor.

Mewn ymateb i gwestiwn y Cynghorydd Johnson, dywedodd y Prif Weithredwr y byddai'r risgiau coch ynglŷn â dyledion yn aros fel yr oeddent. Darperid adroddiadau i Bwyllgorau Trosolwg a Chraffu ynglŷn â ffigyrau incwm rhent a chyfraddau casglu Treth y Cyngor, a byddai adroddiad yn mynd gerbron y Cabinet cyn hir yn cynnig camau lliniarol i gefnogi'r rhai hynny'r oedd Diwygio'r Gyfundrefn Les yn effeithio arnynt.

Wedi i'r Pwyllgor gytuno ar argymhelliad ychwanegol ar sail y drafodaeth, cynigodd y Cynghorydd Dunbobbin gefnogi'r argymhellion, ac fe'i heiliwyd gan y Cynghorydd Woolley.

PENDERFYNWYD:

(a) Bod gan y Pwyllgor sicrwydd y rheolwyd risgiau gydol y flwyddyn, a'i fod yn nodi statws diwedd blwyddyn y risgiau strategol i flaenoriaethau'r Cyngor ar gyfer 2018/19; a

(b) Derbyn adroddiad canol blwyddyn ynglŷn â'r system rheoli risg yn ei chyfanrwydd.

21. PRESENOLDEB AELODAU O'R WASG A'R CYHOEDD

Nid oedd unrhyw aelod o'r cyhoedd na'r wasg yn bresennol.

Dechreuodd y cyfarfod am 10am a daeth i ben am 11.30am.

……..

Y Cadeirydd